"Beth yw byw? Cael neuadd fawr rhwng cyfyng furiau."
Waldo Williams



# Cynllun Gweithredol 2024/25

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Cynnwys


**1. Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr** 3

**2. Ein Cenhadaeth** 5

**3. Ein Gwerthoedd** 5

**4. Ein Cynlluniau** 6

**4.1 Datblygu'r Maes Cyhoeddi** 6

4.1.1 Cynnwys Cymraeg 7

4.1.2 Cynnwys Saesneg 9

**4.2 Gwasanaethau i'r Sector Llyfrau** 11

4.2.1 Datblygu Cynnwys: Golygu a Dylunio 11

4.2.2 Marchnata a Hyrwyddo 12

4.2.3 Rheoli Deunydd Digidol a Data 14

4.2.4 Gwasanaethau Gwerthu a Dosbarthu 15

**4.3 #carudarllen – Hyrwyddo Gwerth Darllen** 16

**4.4 Ein Heffaith: Ymchwil a Gwerthuso** 18

**5. Ein Sefydliad a blaenoriaethau gweithredol allweddol** 19

5.1 Llywodraethu 19

5.2 Cyllid 19

5.3 Cyfathrebu a Brandio 19

5.4 Technoleg Gwybodaeth 20

5.5 Adnoddau Dynol 20

5.6 Codi Arian 20

**6. Ein Partneriaid** 21

**7. Gwybodaeth Ariannol** 26

**Atodiadau** 27

1 Cyllideb 2024/25 27

2 Dadansoddiad o'r Costau 2024/25 28

3 Grantiau Cyhoeddi 2024/25 29

# 1 Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr

Y flwyddyn 2024/25 fydd un o'r rhai mwyaf heriol ers i mi ymgymryd â rôl Prif Weithredwr yn 2017. Y rheswm am hyn yw bod nifer o ffactorau'n cydgyfarfod, yn bennaf y toriad o 10.5% i'n cyllideb yn dilyn degawd o gyllid digyfnewid, amgylchedd masnachu anodd yn y DU, a phwysau parhaus ar gyflogau.

Siomedig oedd gweld na chydnabuwyd y cyfraniad sylweddol mae'r Cyngor Llyfrau'n ei wneud i'r iaith Gymraeg; na'r effaith ddisymwth ac uniongyrchol ar y ddarpariaeth o lyfrau i gefnogi'r cwricwlwm newydd; ar y ddarpariaeth ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg; nac ar gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr ledled Cymru, sydd yn aml mewn ardaloedd gwledig.

Mae unrhyw doriad i gyllideb yn sicr o arwain at benderfyniadau anodd, ac mae hyn wedi bod yn wir i ninnau. Ar ôl ymgynghori'n agos â chyhoeddwyr, cytunodd y ddau is-bwyllgor y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu cyllidebau sy'n cefnogi rhaglenni refeniw a swyddi a gefnogir. Mae pob un yn ffurfio sylfaen i allbwn y diwydiant, ac ni all weithredu hebddynt.

Roedd hyn yn golygu gostyngiad difrifol neu ddileu llinellau cyllideb eraill yn llwyr a lleihau nifer y swyddi yn y Cyngor Llyfrau:

- Blaendaliadau i awduron a dylunwyr i gomisiynu llyfrau gwreiddiol, ar gyfer oedolion a phlant yn arwain at lai o ddewis i ddefnyddwyr a gallai arwain at golli darllenwyr ar draws y pynciau, yn enwedig wrth ddarparu cynnwys dilys yn ymwneud â Chymru yn Saesneg.
- Roedd cyllidebau marchnata eisoes dan bwysau mawr, ond bu'n rhaid eu lleihau i'r fath raddau nes i'r is-bwyllgor Saesneg ganslo eu cyfarfod ym mis Mai gan nad oedd digon o arian yn y gronfa i warantu derbyn ceisiadau. Ac eto mae'n rhaid i gyhoeddwyr Saesneg o Gymru gystadlu â chyhoeddwyr rhyngwladol mawr yn Llundain i gael sylw gan y cyfryngau, llyfrwerthwyr a defnyddwyr, ac mae'r ychydig gefnogaeth oedd gynt ar gael i helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn wedi crebachu hyd yn oed ymhellach.
- Bu'n rhaid lleihau'r gyllideb ar gyfer y tendr cylchgrawn llenyddol Saesneg newydd yn unol â thoriadau ar draws cyllidebau eraill
- Bu'n rhaid dileu'r grant bychan ar gyfer llyfrwerthwyr annibynnol y stryd fawr sy'n cefnogi llyfrau Cymraeg, gan arwain at hyd yn oed fwy o bwysau ar amgylchedd stryd fawr sydd eisoes yn fregus.
- Bu'n rhaid dileu'r grant i weithio mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru i hyrwyddo Llyfr y Flwyddyn drwy siopau manwerthu, gan arwain at lai o sylw ar gyfer gwobr lenyddol genedlaethol fwyaf clodfawr Cymru.
- Bu'n rhaid dileu'r gyllideb hyfforddi yn llwyr, gan o bosib adael cyhoeddwyr heb y sgiliau i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil datblygiadau ym maes deallusrwydd artiffisial a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Yn achos y Cyngor Llyfrau, roedd yn golygu dileu tair swydd bellach o'n strwythur staffio, oedd eisoes wedi gostwng o 50 i 39 mewn ymateb i'r heriau a ddaeth yn sgil COVID a chostau cynyddol cyflogau yn erbyn cyllideb ddigyfnewid. Dylid nodi bod y swyddi hyn yn rhai Cymraeg eu hiaith, yn derbyn tâl teg, â thelerau ac amodau da (mae'r Cyngor Llyfrau yn dilyn y Llyfr Gwyrdd) ac wedi'u lleoli mewn ardal wledig, ac felly'n cario premiwm.
- Ofnwn y bydd y cwtogi eithafol hwn mewn capasiti'n ein gwneud yn llai abl neu ystwyth wrth ymateb i gyllid prosiect posibl, lle nad yw amser a chapasiti staff yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Yn erbyn y senario sobreiddiol iawn hon, roeddem yn croesawu'n fawr y cynnig i redeg 3ydd rownd y Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd a chyllid ychwanegol sydd ar gael i gefnogi cylchgronau Cymraeg. Mae'r ddau yn ymyriadau dros dro pwysig a fydd yn dod â rhywfaint o ryddhad i rai dan bwysau cyllidebol ond, fel sy'n digwydd fel arfer gyda chyllid prosiect, nid ydynt yn caniatáu comisiynu a chynllunio mwy strategol yn y tymor hirach y mae'r holl ddiwydiannau creadigol yn dibynnu arnynt. Edrychwn ymlaen at gynnal digwyddiad arddangos a ragwelir ar gyfer hydref 2024 i ddathlu'r cyflawniadau a dogfennu'r newid parhaol a ddaw yn sgil y rhaglen drawsnewidiol hon. Byddwn yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan gyfranogwyr Cynulleidfaoedd Newydd i ymuno â grŵp cynghori mewnol, a fydd yn tynnu ar eu profiadau ac yn datblygu ymhellach ein hymdrechion i sicrhau cynrychiolaeth deg yn ein gwaith.

Bydd ein gweithgareddau Hyrwyddo Darllen unwaith eto'n canolbwyntio ar yr agenda "darllen er pleser" a hyrwyddo pŵer trawsnewidiol darllen. Bydd ein Hadran Llyfrau Plant yn parhau i

weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Adrannau Diwylliant, Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar ddegawd o gydweithio ffrwythlon ynghylch Diwrnod y Llyfr, Sialens Ddarllen yr Haf, Stori Sydyn/Quick Reads, Athrawon Caru Darllen a chynlluniau cenedlaethol eraill lle mae Cyngor Llyfrau yn bartner cyflenwi yng Nghymru.

Mae ein Panel Pobl Ifanc, sydd bellach yn ei ail flwyddyn, yn parhau i roi llwyfan i leisiau darllenwyr iau a'u diddordebau penodol mewn fformatau digidol a marchnata.

Mae'n bleser mawr cael cyflenwi 5ed rownd rhaglen Gymraeg y cynllun Darllen yn Well fel partner cyflenwi'r Reading Agency sy'n cael ei ariannu gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru i hwyluso presgripsiynu cymdeithasol yn y gymuned i gefnogi pobl â dementia ac Alzheimer's.

Byddwn yn parhau i gefnogi Cyhoeddi Cymru, cymdeithas y cyhoeddwyr, yn eu hymdrechion i arddangos ein darpariaeth gyfoethog a dwyieithog mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol, a gobeithiwn y rhoddir cefnogaeth i Ffeiriau Llyfrau Frankfurt a Llundain, gan adeiladu ar ganlyniadau rhagorol y llynedd.

Mae'r Cyngor Llyfrau, ar gais y grŵp rhanddeiliaid, wedi cymryd rôl arweiniol wrth hwyluso'r gwaith i Aberystwyth/Ceredigion wneud cais am statws Dinas Llenyddiaeth UNESCO ac rydym yn rhagweld y bydd y cais yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2025. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid sy'n cynnwys y Cynghorau Tref a Sir, Prifysgol Aberystwyth, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, a Chyfnewidfa Lên Cymru.

Bydd ein Canolfan Ddosbarthu, sy'n hunanariannol a nid-er-elw, yn parhau i ddarparu gwasanaethau craidd trwy gyflenwi manwerthwyr annibynnol, cadwyn ac ar-lein yn ogystal â'r sectorau llyfrgell, addysg, treftadaeth a thwristiaeth.

Unwaith eto, un agwedd bwysig fydd darparu rownd arall o wyliau llwyddiannus yn ystod tymor yr haf, gyda'r tîm gwerthu'n sicrhau bod safleoedd treftadaeth a hamdden yn cael eu cyflenwi'n dda ar gyfer y tymhorau twristiaeth. Byddant oll yn elwa o ymarferoldeb a gallu ychwanegol y system TG newydd a osodwyd ym mis Mawrth 2024, a rhagwelwn y byddwn yn manteisio'n llawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn wrth i hyder y defnyddwyr gynyddu ac wrth i sgiliau gael eu hymgorffori. Byddwn yn parhau i drafod gyda Chyngor Sir Ceredigion o ran sicrhau cefnogaeth i ehangu ein hadeiladau. Mae ein storfeydd eisoes yn llawn, a bydd angen gofod llawr ychwanegol arnom i wireddu'r potensial busnes a ddaw yn sgil uwchraddio'r system TG.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi lle bo hynny'n bosibl wrth wella'r ddarpariaeth TG, yn enwedig o ran seibrddiogelwch, ein platfformau manwerthu defnyddwyr a gwasanaethau ychwanegol i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr. Er ein bod wedi cymryd camau breision dros y blynyddoedd diwethaf i ddad-garboneiddio ein gweithrediadau, gall cyfyngiadau cyllidebol wneud rhai buddsoddiadau a gynlluniwyd yn amhosibl.

Gan fod ein sefydliad yn dilyn y Llyfr Gwyrdd, byddwn yn parhau i fonitro setliadau cyflog yr undeb a drafodwyd ac yn adrodd i'n Bwrdd ar y goblygiadau ariannol yn y flwyddyn i ddod, ond rydym yn rhagweld pwysau ychwanegol a fydd yn arwain at golli rhagor o swyddi.

Rhoddodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eu cymeradwyaeth i gylch recriwtio arall yr hydref hwn yn sgil ymddeoliad yr ymddiriedolwyr hynny a drosglwyddodd dros gyfnod o amser o'r strwythur cyfreithiol blaenorol. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, byddwn yn rhedeg proses recriwtio agored i gyrraedd yr ystod ehangaf posibl tra hefyd yn diwallu'r angen am sgiliau.

## 2 Ein Cenhadaeth

Ein prif amcanion, fel y'u nodir yn ein cyfansoddiad, yw:

**(a)** hyrwyddo a chefnogi'r diwydiant llyfrau yng Nghymru drwy ddyfarnu grantiau ac fel arall;

**(b)** hyrwyddo, hybu a chynorthwyo'r gwaith o gynhyrchu a dosbarthu llyfrau a deunydd llenyddol a chelfyddydol arall, sut bynnag maent wedi'u cofnodi (boed drwy ddulliau hysbys neu ddulliau nad ydynt yn hysbys eto) yn nwy iaith swyddogol Cymru, y Gymraeg a'r Saesneg, neu sy'n berthnasol i Gymru;

**(c)** trefnu digwyddiadau i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo llyfrau, darllen a'r sector llyfrau yn ei gyfanrwydd;

**(ch)** hyrwyddo a hybu'r broses o gyhoeddi llyfrau o'r fath a deunydd arall yng Nghymru.

## 3 Ein Gwerthoedd

Credwn

- yng ngrym trawsnewidiol darllen er pleser a'i fod yn cael effaith gadarnhaol ar ein lles, ein hiechyd meddwl, ein cyrhaeddiad addysgol, a'n cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol
- mewn cefnogi sector cyhoeddi sy'n agored a chroesawgar ac sy'n ffynnu ar greadigrwydd a chydweithio, gan gynhyrchu cynnwys o safon sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywydau pobl a'r economi sylfaenol yng Nghymru
- fod angen i ni fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu'r sector i ddenu'r bobl, y sgiliau a'r profiadau sy'n adlewyrchu Cymru gyfan
- fod diwylliannau ac ieithoedd amrywiol Cymru yn cyfoethogi pob agwedd ar ein bywydau a'n cymunedau
- y dylai pawb gael mynediad at lyfrau a chylchgronau mewn fformatau print, digidol neu sain waeth beth fo'u gallu i'w fforddio
- fod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom ac yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd, ein treftadaeth a'n diwylliant
- fod straeon niferus ac amlochrog Cymru yn ein cysylltu ni â'r byd yn ehangach ac yn ein helpu i hyrwyddo ein cenedl yn Ewrop ac yn fyd-eang.

# 4 Ein Cynlluniau

Wrth weithredu trydedd flwyddyn ein cynllun strategol 5-mlynedd, ein pryder pennaf yw sut i barhau i allu cynnal ein gweithgaredd craidd yn dilyn y toriad siomedig o 10.5% i'n cyllideb. Yn dilyn ymgynghori gyda'r cyhoeddwyr, rydym wedi rhoi trefniadau ar waith a fydd, gobeithio, yn diogelu ein diwydiant bregus cymaint â phosibl.

Rydym yn ymwybodol o effaith andwyol y toriad hwn yn dilyn blynyddoedd o gyllid digyfnewid; bydd ei effaith yn amlwg ac yn hirhoedlog. Bydd cefnogi llai o gynnwys yn golygu llai o gyfleoedd i awduron a phobl greadigol eraill, a llai o waith hefyd i weithwyr llawrydd. Mae'n destun pryder gwirioneddol y byddwn yn colli talent a sgiliau i sectorau eraill sy'n talu'n well – nid lleiaf ohonynt y diwydiant cyhoeddi yn Llundain. Bydd darllenwyr yng Nghymru'n cael llai o ddeunydd ac iddo gynnwys dilys, ac rydym mewn perygl o golli darllenwyr iau yn enwedig, nid yn unig i gyhoeddwyr eraill, ond yn fwy cyffredinol byddant yn colli diddordeb mewn darllen. Mae llyfrwerthwyr annibynnol eisoes yn wynebu eu cyfnod mwyaf heriol, gyda'r stryd fawr ar drai yn y rhan fwyaf o'n trefi.


Bydd dileu tair swydd o'n strwythur ni fel sefydliad yn golygu llai o gyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i gyhoeddwyr ar adeg pan fo'r sector yn wynebu ei heriau mwyaf. Gyda llai o gapasiti, bydd yn llawer anoddach i ni chwilio am gyllid grant a noddwyr eraill, neu fuddsoddi mewn adeiladu partneriaethau allai arwain at brosiectau tymor hir i gefnogi nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae gennym record i ymfalchïo ynddi o fod yn ystwyth a chwilio am arian ychwanegol pryd bynnag y bo modd, gan redeg prosiectau am ddim neu am ffioedd gweinyddol isel i sicrhau bod y cyllid yn ymestyn cyn belled ag y bo modd – ond ni fydd hyn yn ymarferol bosibl eleni. Byddai angen i brosiectau ar raddfa fwy fel y Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd gynnwys elfen wedi'i chlustnodi er mwyn i ni allu gweinyddu prosiectau newydd yn effeithiol. Yn naturiol, edrychwn ymlaen at barhau â'n cydweithredu hynod gynhyrchiol gyda Cymru Greadigol, a'n gobaith yw y byddwn, ar y cyd, yn gallu dod o hyd i atebion ar gyfer y cyfyng-gyngor a ddaw nid yn unig i'r sefydliad, ond i'r sector cyfan.

## 4.1 Datblygu'r Maes Cyhoeddi

Diben ein cynlluniau yw sicrhau bod ystod eang o lyfrau safonol sy'n adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth yn cyrraedd y farchnad yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cyhoeddi yn y ddwy iaith yn gallu wynebu heriau masnachol sylweddol am resymau gwahanol iawn i'w gilydd, ac mae cefnogaeth y Llywodraeth (trwy'r Cyngor) yn allweddol i sicrhau bod Cymru a Chymry i'w gweld yn ei chynnyrch print, ar bapur ac ar-lein, mewn llyfrau a chylchgronau, a bod y cynnyrch hwnnw yn ei dro yn hybu a chyfoethogi bywyd sifig y genedl yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol.

**Effaith a chyrhaeddiad y grant cyhoeddi**



## 4.1.1 Cynnwys Cymraeg

Golygodd y toriadau difrifol yng nghyllideb 2024/25 bod nifer o'r elfennau sy'n cynnal cyhoeddi Cymraeg wedi eu gwanio neu wedi eu dileu, o gyfleoedd hyfforddi i grantiau i awduron llawrydd. Mae hyn yn peri dychryn i'r Cyngor ar ran y diwydiant ac yn ehangach na hynny; mae'n bryder o ran y ddarpariaeth sydd ar gael i ddarllenwyr Cymraeg o bob lefel a diddordeb, Cymry newydd a myfyrwyr ysgol. Er gwaethaf hyn, byddwn yn parhau i ymdrechu i ddarparu ystod eang o lyfrau deniadol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiddordebau a gynrychiolir gan ddarllenwyr Cymraeg o bob oed. Busnesau bach wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig ledled y wlad yw'r rhan fwyaf o'r cyhoeddwyr yng Nghymru, ac o ganlyniad maent yn cael effaith ddofn ar yr economi sylfaenol. Rydym yn cefnogi cyhoeddwyr i wella ansawdd llyfrau, ac i gynyddu amrywiaeth y llyfrau a'r cylchgronau a gyhoeddir; rydym yn cefnogi awduron, dylunwyr a chyhoeddwyr o ansawdd uchel i ysgrifennu, darlunio, dylunio a golygu llyfrau a chylchgronau Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda'r cyhoeddwyr presennol i wella amrywiaeth y cynnwys a'r gweithlu ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfleon a chefnogaeth ar gael i unigolion i fentro i'r maes cyhoeddi am y tro cyntaf. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r sector i sicrhau bod y polisïau priodol yn cael eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith; bod rhwystrau'n cael eu dileu, a sicrhau cyfleoedd datblygu ar gyfer siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd lleiafrifol. Rydym yn ymrwymo i herio deiliadaeth ac yn chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i ddenu ymgeiswyr a chynulleidfaoedd newydd, o fewn y system grant bresennol ac yn achos unrhyw arian prosiect ychwanegol. Byddwn yn parhau i gefnogi Cwlwm Cyhoeddwyr a Cyhoeddi Cymru Publishing Wales mewn perthynas â sgiliau hyfforddi, arfer gorau a phresenoldeb mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol.

| Amcan | Meincnod neu ddull gwerthuso | Targed 2024/25 |
|---|---|---|
| **Cynnwys Cymraeg** | | |
| **Llyfrau** | | |
| Gweithredu toriadau o 10.5% yn y gyllideb gyhoeddi gan greu cyn lleied o niwed parhaol â phosibl. | Cyfyngu ar y buddsoddiad. Cymeradwyo nifer llai o geisiadau â chyfanswm llai o gyllideb | Cadw at y gyllideb |
| Gweinyddu y rhaglenni cyntaf sy'n ganlyniad i Arolwg Buddsoddi 2022 a'r swyddi golygyddol cyfatebol. | Cloriannu a chasglu data | Cynnal 7 cyhoeddwr rhaglen llwyddiannus |
| Cefnogi'r gwaith o gynhyrchu amrywiaeth eang o lyfrau o safon ar gyfer oedolion a phlant. | Nifer o lyfrau rhaglen a gynhyrchir | 122 |
| Cefnogi teitlau arbenigol sy'n gwneud cyfraniad diwylliannol gwerthfawr, a chefnogi cyhoeddwyr llai i gyhoeddi llyfrau poblogaidd drwy'r Cynllun Grantiau Unigol. | Nifer y teitlau grant unigol a gyhoeddir | 30 |
| Sicrhau bod llyfrau plant yn darparu cydbwysedd da rhwng addasiadau a chynnwys gwreiddiol (yn unol ag argymhellion Adroddiad Rosser, 2017). | Y nod yn y tymor canolig yw sicrhau bod yr un nifer o lyfrau gwreiddiol ac addasiadau | 50% gwreiddiol |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau buddsoddiad mewn awduron o ansawdd da. | Nifer y teitlau a gefnogir gyda chefnogaeth Grantiau i Awduron (A) | 15 |
| Sicrhau buddsoddiad mewn llyfrau sy'n apelio'n weledol, sydd wedi'u dylunio'n dda ac sydd â chynnwys diddorol. | Nifer y teitlau a gefnogir gyda chefnogaeth Grantiau i Ddylunwyr (A) | 25 |
| Sicrhau bod cyhoeddwyr yn marchnata llyfrau i'r gynulleidfa ehangaf bosibl a bod pob llyfr yn gwireddu ei botensial ei hun yn y farchnad. | Gwerthiant cyfartalog llyfrau a gefnogir gan grantiau rhaglen | 750 ar ôl 18 mis |
| Sicrhau bod llyfrau gwreiddiol a gynhyrchir ar gael hefyd fel e-lyfrau. | Canran o lyfrau gwreiddiol perthnasol a ariennir sy'n cael eu trosi yn e-lyfrau | 50% |
| Rhoi cymorth i gyhoeddwyr drwy ddarparu cyllid gwerth 75% ar gyfer swyddi golygyddion creadigol. | Nifer y swyddi [cyfwerth ag amser llawn] a gefnogir | 12 |
| Parhau i ddarparu hyfforddiant i olygyddion drwy gynnig cyrsiau a sesiynau mentora. | Nifer y sesiynau hyfforddi | 0 |
| Cefnogi gweithgareddau marchnata cyhoeddwyr, gan sicrhau bod llyfrwerthwyr yn rhan annatod o unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau hyrwyddo. | Nifer y grantiau marchnata i'r prif gyhoeddwyr<br>Grantiau marchnata i lyfrau unigol | 6<br>10 |

| Amcan | Meincnod neu ddull gwerthuso | Targed 2024/25 |
|---|---|---|
| **Cynnwys Cymraeg** | | |
| **Gwasanaeth Newyddion Cymraeg Ar-lein** | | |
| Cynnal gwasanaeth newyddion Golwg 360. | Adroddiadau chwarterol wedi'u derbyn yn brydlon sy'n adrodd ar feini prawf prethnasol | 100% |
| **Cylchgronau** | | |
| Sicrhau bod amrywiaeth o gylchgronau Cymraeg print ac ar-lein yn cael eu hariannu ac yn cyrraedd marchnad amrywiol sy'n tyfu. | Nifer y cylchgronau a gynhyrchir | 16 |
| Monitro gwerthiant cyfartalog. | Gwerthiant i'w adrodd ym mis Medi 2025 | Hamdden – 2,400<br>Newyddion – 1,500<br>Plant – 2,700<br>Llenyddol a Diwylliannol – 700 |
| Sicrhau bod cylchgronau'n cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i'r farchnad yn brydlon. | Amserlenni cyhoeddi rheolaidd | 98% |

## 4.1.2 Cynnwys Saesneg

Golygodd y toriadau llym yn y gyllideb bod llawer o'r elfennau sy'n cefnogi cyhoeddi Saesneg yng Nghymru wedi eu lleihau neu wedi eu dileu – o gyfleoedd hyfforddi i grantiau i awduron llawrydd. Gan fod hon yn gronfa lai o lawer na'r un Gymraeg, mae'r sefyllfa hon yn ddifrifolddwys, yn enwedig wrth ystyried cryfder y gystadleuaeth gan gyhoeddwyr o Lundain. Mae cynnwys o safon am Gymru neu sy'n adlewyrchu Cymru, yn gywir ac yn ddilys yn Saesneg, yn cael ei leihau ymhellach sy'n bryder o ran y portread o Gymru yn fyd-eang ond hefyd o ran cefnogi gofynion y cwricwlwm newydd. Er gwaethaf hyn, byddwn yn parhau i ymdrechu i ddarparu ystod eang o lyfrau a chylchgronau deniadol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiddordebau a gynrychiolir gan ddarllenwyr Cymru o bob oed. Diben cefnogi cyhoeddiadau Saesneg o Gymru yw sicrhau bod diwydiant cyhoeddi cyfrwng Saesneg sylweddol yn bod yng Nghymru, a hwnnw'n cynhyrchu ystod amrywiol o deitlau sy'n adlewyrchu diwylliant unigryw Cymru, drwy gyhoeddi lleisiau dilys sy'n deillio o amrywiaeth y profiadau byw a gynrychiolir yn ein cymunedau. Mae teitlau Saesneg o Gymru yn cystadlu yn rhyngwladol o fewn diwydiant cyhoeddi Saesneg byd-eang hynod o gystadleuol, sy'n canolbwyntio ar lefelau gwerthiant a gwerthwyr gorau rhyngwladol. Diben ein grant yw sicrhau bod lleisiau newydd o Gymru yn cael cyfle i gael eu cyhoeddi, bod cynnwys perthnasol o ansawdd uchel ar gael i bobl yng Nghymru, a bod modd cefnogi cyhoeddiadau sy'n cynrychioli'r Gymru gyfoes yn ei holl amrywiaeth ar lefel ryngwladol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i sicrhau cynrychiolaeth deg mewn perthynas ag awduron, pynciau a themâu a ariennir gennym ni, ac yn defnyddio ffigurau'r cyfrifiad diweddaraf fel meincnod i fesur ein heffaith yn y maes penodol hwn. Byddwn yn parhau i adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chymru Greadigol trwy ddarparu diweddariadau cyson o'n Adroddiad Cynrychiolaeth Deg.

| Amcan | Meincnod neu ddull gwerthuso | Targed 2024/25 |
|---|---|---|
| **Cynnwys Saesneg** | | |
| **Llyfrau** | | |
| Hwyluso amrywiaeth o lyfrau sy'n cynnig golwg ar gymunedau amlddiwylliannol cyfoethog Cymru gan gyfoethogi yn gyffredinol raglen y cyhoeddwyr a gefnogir drwy'r Grant Refeniw. | Nifer y teitlau Refeniw a gyhoeddir | 42 |
| Cynorthwyo cyhoeddwyr annibynnol o Gymru i barhau i allu cystadlu â chyhoeddwyr mawr drwy ddyfarnu cyllid i gadw awduron sydd wedi'u datblygu neu i feithrin talent newydd drwy Grantiau Blaendaliadau i Awduron. | Nifer o lyfrau a gyhoeddir sydd wedi derbyn y Blaendaliadau i Awduron a ddyfernir | 10 |
| | Gwerthiant cyfartalog disgwyliedig ar gyfer teitlau sy'n derbyn Grantiau Blaendaliadau i Awduron | 2,000 |
| Cefnogi teitlau arbenigol sy'n gwneud cyfraniad diwylliannol gwerthfawr drwy'r Grantiau Llyfrau Llenyddol Unigol. | Nifer y teitlau a gyhoeddir sydd wedi derbyn grant | 15 |
| Hyrwyddo'r defnydd o strategaethau marchnata llawn dychymyg sydd â'r nod o gyrraedd y farchnad ehangaf bosibl, gan ganolbwyntio ar greu refeniw gwerthiant hanfodol drwy'r Grant Marchnata. | Nifer y llyfrau a gyhoeddir gyda'r grantiau marchnata a ddarperir | 15 |
| | Gwerthiant cyfartalog disgwyliedig ar gyfer teitlau sy'n derbyn grant marchnata | 2,000 |

| | | |
|---|---|---|
| Cefnogi swyddi strategol pwysig o fewn y sector trwy ddarparu grantiau gwerth hyd at 75% o gost cyflogau swyddi marchnata a golygyddol. | Nifer y swyddi llawn-amser a gefnogir | 9 |
| Darparu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff cyhoeddi. | Nifer y sesiynau hyfforddi a ddarperir i gyhoeddwyr bob blwyddyn | 2 |
| Cefnogi'r gwaith o gyhoeddi argraffiadau newydd o rai o deitlau clasurol llenyddiaeth Saesneg Cymru trwy lansio Grant Llyfrau Clasurol. | Nifer y teitlau a gyhoeddir | 0 |

| Amcan | Meincnod neu ddull gwerthuso | Targed 2024/25 |
|---|---|---|
| **Cynnwys Saesneg** | | |
| **Cylchgronau** | | |
| Cefnogi cylchgronau digidol a phrint sydd yn cyfrannu at ddiwylliant Cymru, a darparu llwyfan hanfodol ar gyfer cynnwys, dadansoddi a thrafod o ansawdd uchel yn ymwneud ag ystod eang o bynciau trwy'r Grant Cyfnodolion Diwylliannol. | Nifer y teitlau a ariennir | 5 |
| | Lleiafswm cyrhaeddiad, ar draws llwyfannau print a digidol | 1,000 |
| | Cylchgronau diwylliannol 'cyffredinol' | 400 |
| | Cylchgronau llenyddol aml-ffocws | 300 |
| | Cylchgronau llenyddol ffocws sengl | 300 |
| Cynnal proses dendro ar gyfer cylchgrawn llenyddol Saesneg newydd. | Cynnal proses lwyddiannus mewn da bryd ar gyfer Hydref 2024 | Cynnal y broses |
| Cefnogi cyhoeddiadau digidol a phrint ar raddfa fach sy'n arddangos amrywiaeth o dalent greadigol newydd trwy'r Grant Cylchgronau Llenyddol Bach. | Nifer y teitlau a ariennir | 1 |
| Sicrhau bod y cylchgronau'n cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i'r farchnad yn brydlon. | Cynnwys wedi'i gyhoeddi yn unol ag amserlen y cytunwyd arni | 98% |

## 4.2 Gwasanaethau i'r Sector Llyfrau

Mae gan yr ystod eang o wasanaethau rydym yn eu darparu i'r sector llyfrau ddibenion penodol iawn ac maent yn seiliedig ar y meysydd cyffredinol canlynol:

- **Datblygu Cynnwys:** sicrhau a datblygu safonau golygyddol a dylunio o ansawdd uchel ar gyfer llyfrau o Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu meysydd allweddol;
- **Marchnata a Hyrwyddo:** cefnogi a hyrwyddo ymdrechion cyhoeddwyr a siopau llyfrau unigol a darparu platfformau ar y cyd ar sail themâu neu ddigwyddiadau penodol. Aelodau o'r diwydiant a'r sector yn mynychu gwyliau, digwyddiadau, cynadleddau a ffeiriau;
- **Rheoli Deunydd Digidol a Data:** cefnogi systemau data a fabwysiadwyd yn rhyngwladol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gynnwys o Gymru ar gael, a darparu mynediad i system masnachu llyfrau safonol fel EDI a BATCH; darparu a datblygu llwyfannau fel ffolio.cymru a gwales.com;
- **Gwasanaethau Gwerthu a Dosbarthu:** dosbarthu a chyfanwerthu i siopau annibynnol, siopau cadwyn a manwerthwyr ar-lein gan gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ledled y byd; darparu gwasanaethau gwerthu pwrpasol ar gyfer llyfrgelloedd, ysgolion a'r sector twristiaeth a threftadaeth; curadu cynigion ystyrlon a pherthnasol i gefnogi anghenion a gofynion gwahanol sylfaen cwsmeriaid amrywiol.

| Amcan | Meincnod neu ddull gwerthuso | Targed 2024/25 |
|---|---|---|
| **4.2.1 Datblygu Cynnwys: Golygu a Dylunio** | | |
| Cynnig gwasanaethau prawfddarllen a golygu copi i gyhoeddwyr, ynghyd â chyngor ac arweiniad i olygyddion creadigol sy'n gweithio yn y tai cyhoeddi. | Nifer y llawysgrifau a olygir | 170 |
| Darparu gwasanaeth dylunio o'r ansawdd uchaf i dai cyhoeddi, a gweithio gyda chyhoeddwyr llai i wella agwedd weledol eu cyhoeddiadau. | Nifer y prosiectau cloriau llyfrau neu ddylunio a gwblheir | 110 |
| Rhoi adborth i'r Is-bwyllgorau Datblygu Cyhoeddi yn ymwneud â cheisiadau grant a meysydd sydd angen eu gwella. | Adborth a roddir pan ofynnir amdano | 100% |
| Darparu arweiniad i'r sector trwy hyfforddiant a chyngor. | Cyfranogiad mewn hyfforddiant perthnasol wedi'i drefnu | 100% |

| Amcan | Targed 2024/25 |
|---|---|
| **4.2.2 Marchnata a Hyrwyddo** | |
| **Cefnogi'r Diwydiant** | |
| Cefnogi a hyrwyddo llyfrwerthwyr a chyhoeddwyr yn deg, gan roi gwybodaeth iddynt a chyfleoedd iddynt fanteisio ar weithgaredd hyrwyddo'r Cyngor Llyfrau, ar-lein, all-lein ac mewn digwyddiadau, os dymunant. | Cyfrannu at gyfarfodydd rheolaidd gyda'r llyfrwerthwyr a'r cyhoeddwyr (CCPW / Cwlwm) gan rannu gwybodaeth am gyfleoedd a chasglu adborth<br>Rhannu cynnwys y siopau a'r cyhoeddwyr sy'n tagio'r Cyngor Llyfrau ar y cyfryngau cymdeithasol<br>Rhoi blaenoriaeth i negeseuon #CefnogiSiopauLlyfrau a mwyhau ymgyrchoedd cenedlaethol megis Wythnos Siopau Llyfrau ac eraill<br>Cefnogi a dathlu cyhoeddiadau newydd drwy ymgyrchoedd megis Llyfr y Mis, gan ddarparu cyfleoedd i'r cyhoeddwyr ehangu eu gwaith hyrwyddo drwy ddarparu cynnwys ychwanegol fel y dymunant |
| Cefnogi gwerthiant llyfrau a chylchgronau, a hyrwyddo siopau llyfrau. | Adran Dylunio i gynhyrchu dau atodiad llyfrau y flwyddyn (haf a gaeaf) mewn da bryd ar gyfer hyrwyddo llyfrau newydd cyn cyfnodau gwerthu allweddol. I'w cefnogi gan gynllun dosbarthu ac asedau digidol<br>Datblygu cyfres o erthyglau argymhellion darllen / anrhegion ar gyfer dyddiadau allweddol<br>Hyrwyddo'r ystod o gylchronau yn y ddwy iaith yn gyson ar draws ein sianelau<br>Parhau i ddatblygu cyfres o asedau digidol i gefnogi cyfnodau gwerthu a digwyddiadau allweddol (Nadolig, darllen yr haf, Sêl llyfrau, diwrnodau arbennig) a'u dosbarthu i'r diwydiant. Casglu adborth ar yr hyn sy'n gweithio neu beidio er mwyn datblygu a gwella'r adnoddau sydd ar gael |

| Amcan | Targed 2024/25 |
|---|---|
| **Cefnogi Darllen er Pleser** | |
| Creu a darparu ymgyrchoedd hyrwyddo ar gyfer y prif raglenni (e.e. Diwrnod y Llyfr, Sialens Ddarllen yr Haf, Darllen yn Well, Tir na n-Og) i gyrraedd y gynulleidfa darged. | Cyd-weithio a'r Adran Hyrwyddo Darllen i ddarparu ymgyrchoedd hyrwyddo amserol a gwaith gwerthuso mewn da bryd ar gyfer:<br>• Diwrnod y llyfr<br>• Diwrnod Llyfr y Byd a Hawlfraint UNESCO / Diwrnod llyfr y byd UNESCO<br>• Gwobrau Tir na n-Og<br>• Sialens Darllen yr Haf<br>• Darllen yn Well<br>• Gwobrau Clawr y Flwyddyn |
| Creu cynnwys i ysbrydoli a dathlu darllen er pleser i blant, pobl ifanc, oedolion a dysgwyr. Byddwn yn profi ac yn gwerthuso syniadau newydd i gyrraedd ac ymgysylltu  â chynulleidfaoedd newydd. | Gweithio gyda'r Adran Hyrwyddo Darllen i ddatblygu'r gyfres o bodlediadau i blant a phobl ifanc<br><br>Datblygu cyfres o erthyglau argymhellion darllen ar gyfer themau tymhorol/dyddiadau allweddol<br><br>Arbrofi gyda chynnwys newydd ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol<br><br>Cyd-weithio â'r Panel Pobl Ifanc i gasglu adborth ar ein cynnwys ac i helpu ni i lunio cynnwys newydd<br><br>Manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan AM i gydweithio a pharhau'r bartneriaeth i greu a rhannu cynnwys newydd ar ein sianel *Caru Darllen* |
| Hyrwyddo mynediad at lyfrau i bawb. | Hyrwyddo llyfrgelloedd a rhannu cynnwys llyfrgelloedd ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol<br><br>Hyrwyddo platfform Ffolio i dynnu sylw ar ystod o lyfrau llafar ac e-lyfrau sydd ar gael |

| Amcan | Targed 2024/25 |
| --- | --- |
| **Cyfathrebu** | |
| Mae cyfathrebu a gwerthoedd brand yn dangos bod y sector yn agored ac yn groesawgar i bawb. Adlewyrchir ein gwerthoedd yn ein prif negeseuon ar draws pob sianel ac yn ein holl gynnwys. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector i gyrraedd cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid amrywiol gyda'n newyddion a'n straeon. | Darparu rhaglen waith cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar effaith a gwaith y Cyngor Llyfrau<br>Rhannu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl weithio gyda ni neu i elwa o'n gwasanaethau (e.e. cyhoeddi grantiau, hysbysebu swyddi a chyfleoedd gwirfoddoli ar ein baneli.)<br>Rhannu newyddion am ein gwaith i ddangos effaith a chanlyniadau'n gweithgareddau<br>Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r sector cyhoeddi |
| Yn unol â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol, rhoddir cefnogaeth/pwyslais arbennig i weithgarwch sy'n dangos ymrwymiad i fuddsoddi mewn cynnwys, awduron a fformatau amrywiol. | Bydd y gweithgarwch sy'n datblygu amrywiaeth yn y byd cyhoeddi Cymraeg yn cael ei fwyhau |
| Parhau gyda rhaglen o waith datblygu gwefan y Cyngor Llyfrau https://llyfrau.cymru i sicrhau bod gan randdeiliaid fynedaid hwylus at grantiau, gwasanaethau a gwybodaeth. | Grŵp y Wefan i gyfarfod yn rheolaidd i gytuno ar raglen o waith a gweithredu gwelliannau i'r wefan |
| Cefnogi prosiectau arbennig, yn cynnwys<br>• Rhyngom<br>• Grant Cynulleidfaoedd Newydd<br>• System newydd y Ganolfan Ddosbarthu | Datblygu a darparu gweithgareddau cyfathrebu sy'n cefnogi prosiectau arbennig ar draws yr adrannau |

| Amcan | Meincnod neu ddull gwerthuso | Targed 2024/25 |
| --- | --- | --- |
| **4.2.3 Rheoli Deunydd Digidol a Data** | | |
| Darparu, diweddaru ac ehangu cynnig ac ymarferoldeb ffolio.cymru a gwales.com | Nifer yr e-lyfrau sydd ar gael | 1,500 |
| Ymestyn y defnydd o safonau data llyfryddol megis ONIX 3, THEMA ac ISNI i sicrhau bod gwybodaeth am gynnwys o Gymru ar gael yn llawn ac yn hwylus yn rhyngwladol. Darparu hyfforddiant i gyhoeddwyr yn ôl yr angen. | Darparu sesiynau hyfforddi yn ymwneud â metadata i gyhoeddwyr | 1 |
| Ymestyn y defnydd o EDI (Cyfnewidfa Data Electronig) i hwyluso prosesu archebion electronig a chyfathrebu electronig â llyfrwerthwyr, cyfanwerthwyr a chwsmeriaid eraill fel llyfrgelloedd. | Cynllun olyniaeth EDI ar waith | Trosglwyddo i Nielsen |

| Amcan | Meincnod neu ddull gwerthuso | Targed 2024/25 |
|---|---|---|
| **4.2.4 Gwasanaethau Gwerthu a Dosbarthu** | | |
| Sicrhau gwasanaeth dosbarthu o safon i bob cyhoeddwr, a bod gwerthiant yn gwella yn dilyn y cyfyngiadau COVID. | Gwerthiant y Ganolfan Ddosbarthu | Gwerthiant gros: £4m Gwerthiant net: £2.64m (wedi'i rannu isod) |
| Cynnal cysylltiadau rhagorol drwy ychwanegu gwerth drwy wasanaethau pwrpasol a chynigion wedi'u curadu sy'n berthnasol i ystod eang o gwsmeriaid fel Cadw, Waterstones, WHSmith, Gardners ac Amazon. | Gwerthiant net | £880,000 |
| Datblygu'r sector yn y Gogledd drwy gynnig opsiynau newydd a thargedu lleoliadau newydd. | Gwerthiant net | £880,000 |
| Datblygu'r sector yn y De drwy gynnig opsiynau newydd a thargedu lleoliadau newydd. | Gwerthiant net | £880,000 |
| Hyrwyddo'r defnydd o gwales.com a ffolio.cymru drwy weithio'n agos gyda'r tîm marchnata a thrwy gynnig gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol wrth ymateb i ymholiadau a darparu cymorth ar ôl gwerthu. | Gwerthiant i unigolion | Gwerthiant gros: £75,000 |
| | Nifer y defnyddwyr gwales cofrestredig | 17,000 |
| Cefnogi siopau llyfrau annibynnol drwy'r Cynllun Ymestyn, darparu cymorth ar gyfer digwyddiadau cyhoeddwyr ac awduron, cyfarfod yn rheolaidd â llyfrwerthwyr a darparu cyngor ar ddatblygiadau digidol a chyfleoedd busnes. | Effaith y Cynllun Ymestyn | Gwerthiant ychwanegol: £100,000 |
| Parhau i adolygu a gwerthuso effaith amgylcheddol deunyddiau pacio a threfniadau cludo drwy leihau'r defnydd o blastig a lleihau teithiau diangen a/neu weithio mewn partneriaeth â threfniadau cludo eraill. | Lefel darged o lyfrau wedi'u dychwelyd | 10% |
| Darparu'r profiad gorau i gwsmeriaid drwy sicrhau bod pob ymholiad yn cael ei ateb mewn ffordd broffesiynol a chwrtais yn y ddwy iaith. | Nifer y galwadau ffôn a atebir gan y tîm gwasanaethau cwsmeriaid | 95% |

## 4.3 #carudarllen – Hyrwyddo Gwerth Darllen

Mae pawb yn ein sefydliad yn gwerthfawrogi ac wrth eu boddau â llyfrau a darllen. Mae helpu pawb, ond yn enwedig plant, i ddatblygu'r arfer o ddarllen gydol oes yn ganolog i'n gwaith. Mae ein pwyslais ar ddarllen er pleser, ac nid yw hynny'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chyrhaeddiad addysgol. Mae gwaith ymchwil yn dangos sut mae darllen rheolaidd yn symbylu nifer o ganlyniadau cadarnhaol, o safbwynt iechyd meddwl a llesiant, llwyddiant addysgol a llwyddiant proffesiynol. Nod ein rhaglenni yw codi proffil a hyrwyddo llyfrau plant yn y ddwy iaith, yn yr ysgol ac mewn lleoliadau hamdden.

| Amcan | Targed 2024/25 |
|---|---|
| Eiriol dros gael Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r cynllun i roi llyfr yn anrheg yn flynyddol i blant ysgolion ledled Cymru fel blaenoriaeth ariannu craidd. | Defnyddio'r gwerthusiad o'r cynllun Caru Darllen Ysgolion er mwyn parhau i eiriol dros gynllun rhoi llyfr yn anrheg blynyddol i blant ysgolion ledled Cymru |
| Cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru, consortia addysg ac awdurdodau lleol i hyrwyddo darllen er pleser ac adnoddau cwricwlwm eraill, megis y *Blwyddlyfr Plant a Phobl Ifanc* a deunyddiau eraill ynghyd â chynnwys digidol arall i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm. | Deialog rheolaidd gyda rhanddeiliaid am ddeunyddiau sy'n hyrwyddo darllen er pleser ac adnoddau addysgol. Cynnal rhwydwaith Athrawon Caru Darllen er mwyn ysbrydoli a chodi ymwybyddiaeth ymarferwyr o lyfrau amrywiol i ddysgwyr CA2 |
| Hyrwyddo darllen er pleser mewn ysgolion drwy gydgysylltu cystadlaethau Gornest Lyfrau/BookSlam, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau ac amcanion datblygu'r cwricwlwm. | Hyrwyddo'r rhestr lyfrau er mwyn gwella adnabyddiaeth athrawon o deitlau. Mae'r cystadlaethau yn annog dysgwyr i wirioni ar ddarllen gan feithrin agweddau cadarnhaol a hir dymor tuag at ddarllen |
| Ymestyn partneriaethau gyda llyfrgelloedd, a hwyluso cysylltiadau gydag ysgolion a mynediad at lyfrau. | Sefydlu rhwydwaith o randdeiliaid i gynorthwyo gyda llunio adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth llyfrgelloedd ysgolion yng Nghymru |
| Cefnogi Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru trwy<br>• gydlynu'r gweithgareddau i ddathlu Diwrnod y Llyfr 2025;<br>• cefnogi Sialens Ddarllen yr Haf gydag ysgolion a llyfrgelloedd. Rhoddir pwyslais ar dargedu a chyrraedd disgyblion mewn ardaloedd difreintiedig ledled Cymru;<br>• parhau â'r gyfres Stori Sydyn er mwyn targedu plant ac oedolion sy'n ddarllenwyr anfoddog. | Teitl Cymraeg ychwanegol newydd am £1<br><br>Mwy o gynnwys penodol i Gymru wedi'i guradu ar gyfer gwefan Sialens Ddarllen yr Haf<br><br>Gwerthusiad o'r ymgyrch Stori Sydyn yn dilyn ymgyrch hyrwyddo 2024. Derbyn adborth gan aelodau'r Panel Pobl Ifanc |
| Sicrhau sylw i gyhoeddiadau, prosiectau neu newyddion sy'n berthnasol i feysydd llenyddiaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol @LlyfrDaFabBooks. | Cynnydd yn nhraffig cyfrifon cyfryngau cymdeithasol o ganlyniad i ymgyrchoedd penodol (e.e. Diwrnod y Llyfr, Tir na n-Og) |

| | |
|---|---|
| Hyrwyddo a threfnu Gwobrau Tir na n-Og i gydnabod rhagoriaeth ym maes llyfrau plant yn y ddwy iaith, a chynyddu amrywiaeth o safbwynt aelodau'r paneli beirniadu er mwyn cyrraedd cymunedau mwy amrywiol.<br>Sicrhau bod modd hyrwyddo'r gwobrau mor eang â phosibl drwy'r cyfryngau yng Nghymru.<br>Gwerthuso a darparu adborth ar ddeunydd a gaiff ei gyflwyno er mwyn datblygu darpariaeth deunydd darllen er pleser ar gyfer darllenwyr ifanc. | Cynnydd o 20% yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun cysgodi<br>Presenoldeb yn y cyfryngau ar draws pob platfform yn ystod yr ymgyrch<br>Adborth drwy adroddiad y beirniaid i'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi<br>Sicrhau amrywiaeth ymhlith aelodau paneli beirniadu ac aelodau'r Panel Pobl Ifanc |
| Cydweithio ag aelodau a chynrychiolwyr sefydliadau partner ar yr Is-bwyllgor Hyrwyddo Darllen i adnabod a datblygu cyfleoedd darllen er pleser.<br>Darparu adborth ac arweiniad ar ddatblygu llenyddiaeth plant ac oedolion ifanc i'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi, drwy drefnu Is-bwyllgor Hyrwyddo Darllen ddwywaith y flwyddyn. | Deialog rheolaidd gyda phartneriaid i rannu a datblygu negeseuon darllen er pleser<br>Sefydlu partneriaeth o gynrychiolwyr o blith aelodau'r Is-bwyllgor Hyrwyddo Darllen i weithredu fel ymgynghorwyr i'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi<br>Adolygu amrywiaeth yr Is-bwyllgor Hyrwyddo Darllen |
| Trefnu ymgyrchoedd Teithiau Awduron – gweithio gydag awduron, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr, ysgolion a llyfrgelloedd ledled Cymru er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant gwrdd ag amrywiaeth eang o awduron. | Cydgysylltu rhaglen o ddigwyddiadau digidol a digwyddiadau awduron byw rheolaidd gyda sefydliadau partner |
| Cydweithio â phartneriaid megis Mudiad Meithrin ar gyfer creu rhestrau o lyfrau addas a hyrwyddo llyfrau sy'n addas ar gyfer dysgwyr. | Sefydlu '5 dan 5' – postiad tymhorol ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n hyrwyddo llyfrau newydd, amrywiol, gwreiddiol sy'n addas i blant dan 5 oed. Bydd Mudiad Meithrin yn rhannu'r postiad gyda'r holl Gylchoedd a'u rhanddeiliaid |

## 4.4 Ein Heffaith: Ymchwil a Gwerthuso

Os bydd cyllidebau'n caniatáu, byddwn yn parhau ein buddsoddiad mewn ymchwil a gwerthusiad o'n gweithgareddau presennol er mwyn defnyddio'r dystiolaeth i'n helpu i ddatblygu ein gweithgareddau, gyda phwyslais arbennig ar y canlynol:

| Cam gweithredu | Canlyniad |
|---|---|
| Comisiynu gwerthusiad allanol o'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd i ystyried cwestiynau ynghylch y broses ymgeisio, beth oedd ein hymateb ni, beth a gyflawnwyd gan y cyfranogwyr, a'r gwahaniaeth a wnaed gan y gronfa. | Derbyn adborth cyfranogwyr ar ba mor rhwydd oedd y broses, i'n galluogi ni i wella hygyrchedd ar gyfer prosiectau untro yn ogystal â chronfeydd eraill<br><br>Gwrando ar adborth y cyfranogwyr o ran yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, a'r gwahaniaeth a wnaed yn eu cymunedau<br><br>Arwain mewn modd ymarferol ar gyfleoedd cyllido i'r dyfodol |
| Parhau i gynnal gwerthusiad drwy gyfrwng asesiadau is- bwyllgorau, adroddiadau darllenwyr ac asesiadau staff o deitlau, themâu, a'r awduron a ariannwyd. Adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd drwy gyfrwng yr Adroddiadau Cynrychiolaeth Deg. | Sicrhau bod gwaith a wneir tuag at gynrychiolaeth deg yn parhau, a bod grantiau'n cael eu cyfeirio at feysydd o flaenoriaeth |
| Buddsoddi mewn cefnogi a hyfforddi cyhoeddwyr fel bod modd iddynt wneud defnydd ehangach o'r systemau dosbarthiad data THEMA ac ONIX a ddefnyddir gan y diwydiant. | Symleiddio dadansoddi data trwy redeg adroddiadau ar bynciau penodol. Dosbarthiadau i'w defnyddio gan ddeiliaid yr IP nid gan y cyllid |
| Ystyried dichonoldeb ymchwilio i arferion darllen darllenwyr o bob gallu, diddordeb a chefndir drwy gydweithredu â sefydliadau fel Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru, y Ffermwyr Ifanc, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Race Council Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru. | Rhoi sylw arbennig i gynulleidfaoedd di-Gymraeg a sut i ennyn eu diddordeb mewn cynnwys Saesneg o Gymru. Rhoi sylw arbennig i anghenion hygyrchedd a fformatau gwahanol er mwyn ehangu cyfranogiad |
| Bwydo canfyddiadau PhD KESS ar ryngwladoli llenyddiaeth plant i gynlluniau busnes yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen. | Gosod targedau yn seiliedig ar argymhellion ynghylch datblygu cynnwys ac Eiddo Deallusol gyda golwg ar y dyhead am bresenoldeb cenedlaethol mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol |
| Comisiynu gwerthusiad o ddarpariaeth Stori Sydyn yng Nghymru. | Asesu argraff ac effeithlonrywdd y gweithgareddau presennol, yn enwedig o ran ehangu cyfranogiad |
| Asesu ymchwil a wneir gan Cymru Greadigol o ran perfformiad y sector cyhoeddi | Defnyddio data i lywio penderfyniadau polisi a thanategu ymyrraeth darged megis hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y sector wrth osod blaenoriaethau ar gyfer ariannu prosiectau fel Cynulleidfaoedd Newydd. |

# 5 Ein Sefydliad a blaenoriaethau gweithredol allweddol

Mae'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Strategol 5-mlynedd yn rhoi cyfeiriad clir i'n holl adrannau, gyda phwyslais cryf ar gynrychiolaeth deg: mae hyn nid yn unig yn berthnasol i'r cynnwys, y busnesau a'r swyddi yr ydym yn eu cefnogi ond i'n sefydliad ni hefyd.
Er bod y Bwrdd, ein his-bwyllgorau a'n paneli beirniadu yn fwy amrywiol (mewn modd y gallwn ei fesur), gan ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig, rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod pob agwedd ar ein gwaith yn gwir adlewyrchu ein holl gymunedau yng Nghymru. Mae datgarboneiddio'r sector yr ydym yn ei gefnogi a'n Canolfan Ddosbarthu, yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth i ni wynebu'r argyfwng hinsawdd byd-eang.

## 5.1 Llywodraethu

- Cynnal pedwar cyfarfod Bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol.
- Cynnal cyfarfod blynyddol ar gyfer ymddiriedolwyr a'r aelodau.
- Cynnal cyfarfod Chwarterol gyda Cymru Greadigol i ddiweddaru ar gynnydd a gwerthuso.
- Cyfarfod â'r Gweinidog a Swyddogion Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn i roi trosolwg o'r gwaith ac i amlygu blaenoriaethau strategol.
- Parhau i weithredu'r Cynllun Strategol presennol.
- Parhau i ddarparu rhaglen hyfforddiant ar gyfer ymddiriedolwyr fel bo'r angen.
- Sicrhau bod polisïau diogelu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod effaith amgylcheddol ein gwaith yn cael ei hasesu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod y gofrestr risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau risgiau.

## 5.2 Cyllid

- Rhoi'r Cynllun Gweithredol ar waith drwy sicrhau bod y gyllideb yn darparu cyllid ac adnoddau digonol i gyflawni ein cenhadaeth.
- Paratoi'r cyfrifon statudol blynyddol ar gyfer 2023/24 yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt a derbyn adroddiad archwilio da.
- Sicrhau bod adrannau yn derbyn adroddiadau cyllid rheolaidd i ddefnyddio arian y Cyngor yn synhwyrol gan sicrhau gwerth am arian.
- Cynnal adolygiad llawn o opsiynau pensiwn hirdymor gyda Chynllun Pensiwn Dyfed i leihau rhwymedigaethau yn y dyfodol.
- Sicrhau bod y Cynllun Gweithredol yn ein helpu i gyflwyno polisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 5.3 Cyfathrebu a Brandio

- Gweithredu Cynllun Cyfathrebu 2024/25 i gefnogi amcanion a chyflawniad y Cynllun Strategol 5-mlynedd.
- Ymgorffori Canllawiau Brand y Cyngor Llyfrau, gan gynnwys canllawiau ar ofynion brandio Cymru Greadigol, a chydnabod nawdd Llywodraeth Cymru fel bo'n briodol.
- Cynllunio ar gyfer lansio brand newydd HwbLlyfrau.Cymru ar gyfer y Ganolfan Ddosbarthu sy'n cyd-fynd â natur fasnachol y gwaith ac yn hyrwyddo gwasanaethau.
- Parhau i weithio'n agos gyda Chymru Greadigol i ddatblygu dull cydgysylltiedig ac integredig o farchnata a chyfathrebu.

## 5.4 Technoleg Gwybodaeth

- Parhau i weithredu ymhellach ar y system newydd ar ôl y trosglwyddo llwyddiannus, gan sicrhau cydweithio effeithiol â'r darparwr gwasanaeth. Adrodd yn rheolaidd ar gynnydd i'r grŵp llywio a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiadau'r system.
- Ymgymryd â rhaglen hyfforddi staff i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol ar gyfer anghenion y busnes a fydd yn trawsnewid sut mae'r busnes yn gweithio, gan ein galluogi i gystadlu a gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.
- Ehangu'r defnydd o'r system SharePoint yn fewnol a hyrwyddo defnydd o'r system i rannu gwybodaeth gyda phwyllgorau, cyhoeddwyr a llyfrwerthwyr, gan arbed arian ar argraffu a phostio a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd.
- Ymchwilio i systemau newydd sy'n hwyluso cyfarfodydd ar-lein y Bwrdd Ymddiriedolwyr, yr is-bwyllgorau, y Tîm Rheoli ac adrannau.
- Blaenoriaethu gwaith sy'n cryfhau gallu'r Cyngor i ddelio ag ymosodiad seiber gyda'r nod o fodloni gofynion Cyber Essential erbyn diwedd 2025.
- Diweddaru caledwedd a rhwydweithiau'r ddau safle er mwyn cyflymu prosesu a lleihau'r risg o golli data neu amser oherwydd methiant y rhwydwaith.
- Blaenoriaethu gwaith sy'n cryfhau gallu'r Cyngor i ddelio ag ymosodiad seiber gyda'r nod o fodloni gofynion Cyber Essential Plus erbyn diwedd 2025.
- Diweddaru caledwedd a rhwydweithiau'r ddau safle er mwyn cyflymu prosesu a lleihau'r risg o golli data neu amser oherwydd methiant y rhwydwaith.

## 5.5 Adnoddau Dynol

- Ehangu defnydd o'r system BrightSafe gan sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant Iechyd a Diogelwch o leiaf un waith y flwyddyn.
- Sicrhau bod gan bob aelod o'r staff ddisgrifiad swydd cyfredol sy'n cynnwys targedau fel rhan o'r broses arfarnu flynyddol.
- Nodi cyfleoedd i hyfforddi a datblygu aelodau o'r staff fel bod modd iddynt ennill sgiliau hyblyg a throsglwyddadwy a fydd yn eu galluogi i ymateb i unrhyw gyfleoedd newydd, a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r dechnoleg.
- Sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o system Adnoddau Dynol y Cyngor Llyfrau – BrightHR.

## 5.6 Codi Arian

- Cydweithio â Phennaeth yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen i wneud cynnig am docyn llyfr £7 i ysgolion uwchradd, cynghorau sir a chymdeithasau tai.
- Cydweithio ag aelodau'r Bwrdd i ddatblygu cyfleoedd gyda noddwyr corfforaethol.
- Adolygu telerau Cyfeillion y Cyngor Llyfrau gan edrych ar ymgyrch i annog aelodau newydd.

# 6 Ein Partneriaid

Mae cydweithio yn ganolog i'n holl waith, ac mae'n cael ei amlygu orau gan yr ystod eang o bartneriaethau rydym wedi'u meithrin dros y blynyddoedd ac y byddwn yn parhau i'w datblygu. Rydym yn falch iawn o allu cydweithio â'r cyrff arbennig yma:

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | **Cyffredinol**<br>• Cyfnewid gwybodaeth a phrofiad am gynlluniau grant a chomisiynu llyfrau<br><br>**Cymru Greadigol**<br>• Cydweithio'n agos â'r swyddogion sy'n gyfrifol am nawdd y Cyngor Llyfrau<br>• Archwilio cyfleoedd eraill i gefnogi cynaliadwyedd a thwf y sector cyhoeddi, gan gynnwys cymorth ar gyfer digwyddiadau a ffeiriau llyfrau<br>• Cefnogi mewn modd rhagweithiol gydweithrediad traws-sectoraidd yn y celfyddydau ehangach, gan fanteisio'n llawn ar y cynnwys sy'n cael ei gynnal eisoes drwy'r system grantiau<br>• Cyfrannu at ddatblygu sgiliau yn y sector<br>• Cyfrannu at hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector ac yn y gynrychiolaeth a welir yn allbwn y sector<br><br>**Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>***Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu***<br>• Cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru 2022 drwy:<br>› ymgysylltu'n rhagweithiol â Meysydd Dysgu a fydd yn elwa ar gynnwys hamdden a gefnogir gan ein system grantiau<br>› darparu trosolwg holistaidd o'r adnoddau sydd ar gael a helpu i ddatblygu strategaethau i leihau'r ddibyniaeth ar gyhoeddwyr sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru<br>• Cynnal rhaglenni i gefnogi'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol ac amcanion y Strategaeth Tlodi Plant<br>• Cydgysylltu gweithgareddau Diwrnod y Llyfr a'r cynlluniau hyrwyddo darllen fel rhan o Raglen Llythrennedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru<br>• Cydweithio ar y prosiect Stori Sydyn fel rhan o'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol<br>• Cyfrannu at y Grŵp Llywio ar gyfer adnoddau newydd i'r cwricwlwm newydd a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth yn y sector cyhoeddi |

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru**<br>parhad | ***Is-adran y Gymraeg***<br>• Parhau i gefnogi Cymraeg 2050 drwy weithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chefnogi mentrau penodol fel:<br>  • Cymraeg Campus<br>  • Cyfrannu at y Bwrdd Technoleg Iaith<br>• Cydweithredu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol drwy barhau i annog a chefnogi cyhoeddwyr i ychwanegu at Gyfres Amdani, y gyfres ar gyfer Dysgwyr, a nodi bylchau eraill mewn adnoddau<br><br>**Adran yr Economi, Ynni a'r Gymraeg**<br>***Yr Is-adran Datblygu Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr***<br>• Cefnogi Ffyniant i Bawb drwy fuddsoddi'n barhaus mewn sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector llyfrau sy'n rhan o'r economi sylfaenol yn y Gymru wledig<br>• Hyrwyddo llyfrau fel rhan o raglen blynyddoedd thematig Llywodraeth Cymru (Llwybrau – 2023 a 2024)<br><br>**Is-Adran Diwylliant**<br>• Cynnal a datblygu gwefan gwales/llyfrgelloedd i'w defnyddio gan y llyfrgelloedd<br>• Gweinyddu grant Sialens Ddarllen yr Haf i lyfrgelloedd<br>• Defnyddio'r grant ar gyfer dosbarthu teitlau Darllen yn Well i awdurdodau lleol/llyfrgelloedd<br><br>**Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>• Gweinyddu'r cynllun Darllen yn Well ar gyfer cyhoeddi llyfrau ar lesiant ac iechyd meddwl mewn cydweithrediad â The Reading Agency<br>• Cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau ymgysylltiad cymunedol â'r cynllun Darllen yn Well<br>• Hyrwyddo'r cynllun yn rhagweithiol mewn llyfrgelloedd a siopau llyfrau<br><br>**Yr Adran Cysylltiadau Rhyngwladol**<br>• Cefnogi tair colofn y Strategaeth Ryngwladol (2020) – Creadigrwydd, Cynaliadwyedd a Thechnoleg – a chyfrannu cynnwys at This is Wales<br>• Cefnogi blwyddyn thematig 'Cymru yn India' lle bo modd<br>• Cyfrannu at gyfarfodydd y grŵp rhanddeiliaid yn ôl y gofyn |

| | |
|---|---|
| **Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Llenyddiaeth Cymru** | • Cydweithredu ar wobrau Llyfr y Flwyddyn<br>• Llenyddiaeth Cymru i gyfrannu at weithgareddau Diwrnod y Llyfr<br>• Cyfrannu at ddatblygu strategaeth ryngwladol ar gyfer Llenyddiaeth o Gymru<br>• Cydweithredu ar ddigwyddiadau Ffair Lyfrau Llundain yn y dyfodol gyda CCPW<br>• Cydweithredu ar gyfleoedd ar gyfer cyrsiau yn Nhŷ Newydd<br>• Cymryd rhan ym mhaneli bwrsariaeth Llenyddiaeth Cymru<br>• Parhau i gynnal presenoldeb Llenyddiaeth Cymru mewn modd *ex-officio* ar Is-bwyllograu Datblygu Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru<br>• Cydweithredu ar gynllun Bardd Plant Cymru<br>• Cais ar y cyd ar gyfer Ffair Lyfrau Frankfurt |
| **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** | • Cydweithredu er mwyn cyfnewid gwybodaeth rhwng catalog LlGC a chronfa ddata gwales<br>• Darparu gwasanaethau ychwanegol fel danfon i'r cartref ar gyfer cwsmeriaid siopau |
| **Amgueddfa Cymru** | • Cyfnewid gwybodaeth am brosiectau perthnasol |
| **Race Council Cymru** | • Parhau i adeiladu ar y cysylltiadau sydd wedi'u sefydlu a chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithio |
| **Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL)** | • Parhau i gydweithio ar brosiect Rhyngom a chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithio |
| **Anabledd Cymru** | • Parhau i adeiladu ar y cysylltiadau sydd wedi'u sefydlu a chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithio |
| **Cenedlaethau'r Dyfodol** | • Parhau i weithio i gefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar y nodau llesiant |
| **Booksellers Association of the United Kingdom and Ireland** | • Cydweithio ar gynlluniau sy'n bodoli eisoes fel Books Are My Bag<br>• Cydweithio ar is-grŵp 'Booksellers Cymru'<br>• Archwilio cyfleoedd ar gyfer catalog Nadolig penodol i Gymru |
| **Urdd y Cyhoeddwyr Annibynnol** | • Cydweithio er mwyn addasu'r hyb sgiliau ar gyfer y sector yng Nghymru<br>• Rhannu gwybodaeth a dysg y diwydiant |
| **Cyhoeddi Cymru Publishing Wales / Cwlwm Cyhoeddwyr** | • Cyfnewid gwybodaeth am brosiectau perthnasol<br>• Parhau i gydweithredu er mwyn sicrhau presenoldeb cenedlaethol i Gymru mewn ffeiriau rhyngwladol gyda Cyfnewidfa Lên Cymru / Cymru Greadigol |
| **Cyfnewidfa Lên Cymru** | • Cyfnewid gwybodaeth am brosiectau perthnasol<br>• Parhau i gydweithredu er mwyn sicrhau presenoldeb cenedlaethol i Gymru mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol gyda CCPW / Cymru Greadigol |
| **Publishers Association** | • Cydweithio ar arferion gorau er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol<br>• Cydweithio ar feithrin mwy o amrywiaeth o fewn y gweithlu |
| **Cylchgrawn *The Bookseller*** | • Rhannu newyddion am y Cyngor Llyfrau a'r diwydiant yng Nghymru drwy *The Bookseller*<br>• Cydweithio ar gynnwys i gyd-fynd â'r rhifyn *Wales Focus* blynyddol ac ychwanegu straeon newyddion ar gyfer y diwydiant |

| | |
|---|---|
| **Bookshop.org** | • Cefnogi siopau llyfrau i ymuno â'r platfform a datblygu partneriaeth ddosbarthu<br>• Archwilio partneriaeth ddosbarthu uniongyrchol i sicrhau bod teitlau sy'n gysylltiedig â Chymru yn cael eu cynnwys |
| **The Reading Agency** | • Cyflwyno'r pumed cynllun Darllen yn Well yn yr iaith Gymraeg<br>• Cyflwyno Sialens Ddarllen yr Haf |
| **BookTrust Cymru** | • Cymryd rhan yn y cynllun hyrwyddo darllen, archwilio cyfleoedd cydweithredu pellach, a chyfnewid gwybodaeth am brosiectau perthnasol<br>• Arddangos yng nghynadleddau BookTrust Cymru |
| **Read for Good** | • Ymestyn y cynllun presennol, gan sicrhau bod mwy o lyfrau ar gael i wardiau plant mewn ysbytai |
| **Empathy Lab** | • Datblygu a chydgysylltu rhaglen bwrpasol i Gymru yn y ddwy iaith |
| **Llyfrgelloedd** | • Cyfnewid gwybodaeth gyda CILIP Cymru am faterion sy'n berthnasol i lyfrgellwyr ysgolion<br>• Arddangos yng nghynhadledd flynyddol CILIP Cymru neu gefnogi ar-lein<br>• Trefnu Gwobrau Tir na n-Og, a noddir yn rhannol gan CILIP Cymru (cymynrodd Kathleen Cooks)<br>• Cydweithredu â Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ar gynlluniau hyrwyddo darllen |
| **Urdd Gobaith Cymru** | • Hyrwyddo Gwobrau Tir na n-Og a Bardd Plant Cymru<br>• Cefnogi presenoldeb siop lyfrau yn yr ŵyl<br>• Cefnogi'r cylchgrawn i aelodau |
| **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | • Darparu gwasanaethau golygyddol a dylunio ar gyfer enillwyr gwobrau a chyhoeddiadau<br>• Mynychu'r panel llenyddol canolog mewn modd *ex-officio* |
| **Gwyl y Gelli** | • Cefnogi presenoldeb siop lyfrau yn yr ŵyl |
| **Sioe Amaethyddol** | • Cefnogi presenoldeb siop lyfrau yn yr ŵyl |
| **Platfform AM** | • Parhau i ddatblygu ein sianelau a darparu cynnwys rheolaidd i'r platfform<br>• Cefnogi cyhoeddwyr a llyfrwerthwyr i ehangu defnydd a phresenoldeb ar y platfform |

| | |
|---|---|
| **S4C / BBC / ITV a darparwyr cyfryngau eraill** | • Bardd Plant Cymru<br>• Hyrwyddo rhestr fer ac enillwyr Gwobrau Tir na n-Og ar Radio Cymru, Radio Wales ac S4C<br>• Nodi cyfleoedd i hyrwyddo darllen a llyfrau drwy gyfrwng rhaglenni penodol<br>• Ymgysylltu â chomisiynwyr yn rheolaidd i drafod troi llyfrau yn rhaglenni |
| **Cyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru** | • Cydweithredu ar hyfforddiant staff a materion Adnoddau Dynol gan ganolbwyntio’n benodol ar amrywiaeth a chynhwysiant yn gyffredinol<br>• Cysylltu ag aelodau Grŵp Hyrwyddo’r Gymraeg a rhannu gwybodaeth berthnasol, gan nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a hyfforddiant cyffredin, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant mewn lleoliad Cymraeg ei iaith |
| **Prifysgolion Cymru / Colegau Addysg Bellach** | • Ceisio sefydlu partneriaethau gyda phrifysgolion Cymru a fyddai efallai yn gallu ymchwilio’n fanwl i feysydd penodol sydd o ddiddordeb i Gyngor Llyfrau Cymru, e.e. marchnata neu lyfrau plant<br>• Parhau i hyrwyddo’r sector llyfrau fel dewis gyrfaol drwy fynychu ffeiriau gyrfaoedd, cyfrannu at fodiwlau neu alluogi lleoliadau gwaith |
| **TUC Cymru** | • Datblygu’r berthynas a sefydlwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol gyda’r bwriad o hyrwyddo llyfrau a darllen yn y gweithle |
| **Trafnidiaeth Cymru** | • Cynllun Chwedlau ar y Cledrau, Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth<br>• Ymchwilio i gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cydweithredu |
| **CBAC** | • Rhannu gwybodaeth am gomisiynu deunyddiau darllen addysgol |
| **Adnodd** | • Parhau i drafod modelau cydweithredu sy’n adeiladu ar yr isadeiledd presennol ac sydd eisoes wedi’i ariannu yng Nghymru<br>• Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd am gynnwys sy’n bodoli eisoes, archwilio’r potensial i’w ailddefnyddio i sicrhau bod cyllidebau’n canolbwyntio ar feysydd sydd o angen gwirioneddol a thystiolaeth yn hytrach nag ar dystiolaeth anecdotaidd<br>• Sicrhau bod cyhoeddwyr yng Nghymru yn cael pob cyfle i gyfrannu at ddarparu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm<br>• Darparu arweiniad a chyngor ar y broses dendro ac ariannu gan ystyried maint a gallu gweinyddol cyhoeddwyr yng Nghymru |

# 7 Gwybodaeth Ariannol

Mae'r symiau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 wedi'u nodi isod.

| | **2023/24** | **2024/25** |
|---|---|---|
| **Cyllid Craidd – Cymru Greadigol** | **£** | **£** |
| Tuag at Adrannau Arbenigol | 842,801 | 745,453 |
| Costau Llywodraethu a Chostau Canolog | 286,477 | 265,251 |
| | **1,129,278** | **1,010,704** |
| Grant Cyfalaf | 30,000 | 30,000 |
| Grantiau i'w Dosbarthu | | |
| Grantiau Cyhoeddi | 2,600,722 | 2,327,646 |
| | **3,760,000** | **3,368,350** |

Mae'r atodiadau'n nodi amcangyfrifon manwl ar gyfer 2024/25.

Hefyd, mae cyllid prosiect ar gael yn 2024/25 gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru:

| | |
|---|---|
| Cynlluniau Datblygu Darllenwyr | £140,000 |
| Prosiect Rhyngom | £100,000 |

Hefyd, mae cyllid prosiect ar gael yn 2024/25 gan Adran Is-Adran Diwylliant Llywodraeth Cymru:

| | |
|---|---|
| Cynlluniau Datblygu Darllenwyr | £22,200 |

Hefyd, mae cyllid prosiect ar gael yn 2024/25 gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru (yn anuniongyrchol drwy'r Reading Agency):

| | |
|---|---|
| Cynlluniau Darllen yn Well | £200,000 |

Bydd modd ymgymryd â'r holl waith sy'n cael ei ddisgrifio yn y Cynllun hwn yn unol â'r cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25.

# Atodiad 1

## Cyllideb 2024/25

## Incwm

| | | |
|---|---|---|
| | £ | |
| Arian Craidd Cymru Greadigol (Llywodraeth Cymru) | | |
| Costau Uniongrychol Adrannau Arbenigol | 745,453 | |
| Gorbenion Cyffredinol a Chostau Rhedeg | 265,251 | |
| Grant Cyfalaf | 30,000 | |
| Grantiau i'w dosbarthu | | |
| Grantiau Cyhoeddi | 2,327,646 | |
| | | |
| Ffynonellau incwm eraill ar gyfer prosiectau: | | **3,368,350** |
| Llywodraeth Cymru: Yr Adran Addysg a Sgiliau | | |
| Cynlluniau Hyrwyddo Darllen | 140,000 | |
| Cynllun Rhyngom | 100,000 | |
| Llywodraeth Cymru: Is-Adran Diwylliant | | |
| Cynlluniau Hyrwyddo Darllen | 22,200 | |
| Reading Agency | | |
| Cynllun Darllen yn Well | 200,000 | |
| | | 462,200 |
| Incwm Adrannol | | 202,000 |
| Canolfan Ddosbarthu | | 3,056,200 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **7,088,750** |

## Gwariant

| | | |
|---|---|---|
| Adrannau Arbenigol – Costau Uniongyrchol | 937,453 | |
| Costau Gwasanaethau Canolog a Llywodraethu | 275,251 | |
| Gwariant prosiect | | |
| Cynlluniau Hyrwyddo Darllen | 162,200 | |
| Cynllun Rhyngom | 100,000 | |
| Cynllun Darllen yn Well | 200,000 | |
| Costau Cyfalaf | 30,000 | |
| | | |
| Grantiau i'w dosbarthu | | |
| Grantiau Cyhoeddi | 2,327,646 | |
| Canolfan Ddosbarthu | 3,056,200 | |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **7,088,750** |

# Atodiad 2

## Dadansoddiad o'r Costau 2024/25

## Gwariant

| | CYFLOGAU | COSTAU ERAILL | INCWM | NET | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Uniongyrchol Adrannau Arbenigol** | | | | | |
| **Adran Gyfathrebu, Marchnata a Dylunio** | | | | | |
| Cyfathrebu a Marchnata | 83,867 | 7,500 | – | (7,500) | 91,367 |
| Gwyliau Cenedlaethol ac Atodiadau | – | 111,000 | 80,000 | – | 31,000 |
| Dylunio | 99,881 | 5,000 | 25,000 | 20,000 | 79,881 |
| Adolygiadau llyfrau | – | 2,000 | – | (2,000) | 2,000 |
| **Adran Gorfforaethol** | | | | | |
| Gwerthiant | 152,100 | 17,000 | – | (17,000) | 169,100 |
| Cyllid a Gwasanaethau Cwsmeriaid | 206,603 | 31,968 | 60,000 | 28,032 | 178,571 |
| Cynllun Ymestyn | – | 18,000 | – | (18,000) | 18,000 |
| **Adran Datblygu Cyhoeddi** | | | | | |
| Golygyddol | 102,571 | 7,000 | 20,000 | 13,000 | 89,571 |
| **Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen** | | | | | |
| Gweithgareddau hyrwyddo darllen | 56,398 | 36,565 | 7,000 | (29,565) | 85,963 |
| **Cyfanswm Costau Uniongyrchol Adrannau Arbenigol** | **701,420** | **236,033** | **192,000** | **(13,033)** | **745,453** |
| **Llywodraethu a Gorbenion Cyffredinol** | | | | | |
| Costau llywodraethu eraill | 145,691 | 129,560 | 10,000 | (119,560) | 265,251 |
| **Cyfanswm Costau Llywodraethu a Chostau Canolog** | **145,691** | **129,560** | **10,000** | **(119,560)** | **265,251** |
| Gweinyddu grantiau | 182,066 | 15,671 | 197,737 | 182,066 | – |
| Prosiect Addysg Llywodraeth Cymru | 86,265 | 75,935 | 162,200 | 86,265 | – |
| Prosiect Darllen yn Well | 46,569 | 153,431 | 200,000 | 46,569 | – |
| Prosiect Rhyngom | 40,395 | 59,605 | 100,000 | 40,395 | – |
| Prosiectau eraill | 52,831 | – | 52,831 | 52,831 | – |
| **CYFANSWM COSTAU** | **1,255,237** | **670,235** | **914,768** | **275,533** | **1,010,704** |
| **Grant Cyfalaf** | | | | | **30,000** |
| **Grantiau i'w dosbarthu** | | | | | |
| Grantiau Cyhoeddi | | | | | **2,327,646** |

# Atodiad 3

## Grantiau Cyhoeddi 2024/25

| **Grantiau i'w Dosbarthu 2024/25** | **£** |
|---|---|
| | **2,327,646** |

### Cyhoeddiadau Cymraeg

| | £ |
|---|---|
| Cyhoeddwyr Rhaglen | 334,600 |
| Grantiau Cyhoeddi Unigol | 82,000 |
| Taliadau Perfformiad etc. | 0 |
| Swyddi a Gynhelir a Hyfforddiant | 221,680 |
| Taliadau i Awduron a Darlunwyr | 321,500 |
| Marchnata | 26,353 |
| Llyfrwerthwyr | 0 |
| Cylchgronau | 343,000 |
| Cymorth i'r Wasg Gymraeg | 180,000 |
| Gweledigaeth o Adroddiad Siwan Rosser | 0 |
| **Cyfanswm Grantiau Cymraeg** | **1,509,133** |

### Cyhoeddiadau Saesneg

| | **£** |
|---|---|
| Grant Cyfnodolion Diwylliannol | 165,000 |
| Grant Cyhoeddwyr Refeniw | 193,100 |
| Grant Llyfrau Llenyddol Unigol | 51,000 |
| Grant Cylchgronau Bach | 3,000 |
| Grant Hyfforddi | 0 |
| Grant Blaendaliadau i Awduron | 50,000 |
| Grant Swyddi a Gynhelir | 119,600 |
| Grantiau Marchnata | 36,000 |
| Clasuron | 0 |
| Publishers Association | 3,000 |
| **Cyfanswm Grantiau Saesneg** | **620,700** |

| | |
|---|---|
| Gweinyddu | 197,737 |
| **Cyfanswm Grantiau** | **2,327,646** |